RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn rhithiol, ddydd Llun, 26 Hydref, 2020

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 29 Hydref, 2020. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 5 Tachwedd, 2020. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 6 Tachwedd, 2020.

Yn bresennol: Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R.Meirion Jones, Bob Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

Hefyd yn Bresennol: Cynghorwyr Glyn Haynes, Trefor Ll Hughes MBE, Aled M Jones, G O Jones, Bryan Owen, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts.

Ymddiheuriadau: Dim

(10.00 – 11.00 o'r gloch yb)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**3 Cofnodion** Amherthnasol
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd cadarnhau fel rhai cywir, cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2020.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Amherthnasol
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Amherthnasol**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** Adroddiad gan Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
PENDERFYNIAD	**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Tachwedd 2020 i Mehefin 2021 fel y'i cyflwynwyd.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio.**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Oes**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**5 Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20** Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid
PENDERFYNIAD	**PENDERFYNWYD cytuno ar Adroddiad Perfformiad 2019/20 fel adlewyrchiad o waith yr Awdurdod a dylid ei gyhoeddi erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd mis Hydref.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Er mwyn cydymffurfio â gofyniad statudol.**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Amherthnasol – Bydd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo.**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**6 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Llythyr Blynyddol 2019/20** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
PENDERFYNIAD	**PENDERFYNWYD derbyn Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019/20 ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth i ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, erbyn 30 Tachwedd 2020, i gadarnhau hynny ac i ddatgan y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion, a thrwy hynny ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i aelodau er mwyn cynorthwyo i graffu ar berfformiad.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn ymateb i'r cais gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Oes**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**7 Strategaeth Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros dro a'r Pennaeth Gwasanaethau Tai.
PENDERFYNIAD	**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar Corfforaethol a'r Cynllun Gweithredu.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn mabwysiadu agwedd gorfforaethol a chyfannol, sy'n cynnwys cymryd perchnogaeth ar draws y Cyngor mewn perthynas â llywodraethiant, buddsoddiad a gweithredoedd gan sicrhau bod nodau ac amcanion y Strategaeth Ataliol / Ymyrraeth Gynnar yn cael eu cyflawni a'u darparu'n llwyddiannus.**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Oes**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**8 Ffioedd Casglu Gwastraff Gwyrdd** Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff)
PENDERFYNIAD	**PENDERFYNWYD awdurdodi:-** • **Codi £35 y flwyddyn am y bin olwynion cyntaf yn y gwasanaeth casglu Gwastraff Gwyrdd a £30 y flwyddyn am finiau olwynion ychwanegol;** • **Gwariant ychwanegol yn y gyllideb fel y'i nodir ym mharagraff 5.4 gyda'r gwariant ychwanegol hwn yn cael ei ariannu o'r incwm a gynhyrchir trwy godi am y gwasanaeth.** • **Bod y 'cwestiynau cyffredin' a welir ar ddiwedd yr adroddiad hwn fel Atodiad 2 yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.**
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	**Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor gynllun cymeradwy a digon o adnoddau i sicrhau y cyflwynir gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd Gwyrdd effeithlon y codir amdano o 1 Ebrill 2021 ymlaen.**
A OES MODD EI ALW I MEWN?	**Oes**